OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1856 (Cy.206)

CAFFAEL TIR, CYMRU

Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*16 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 30(5) o Ddeddf Iawndal Tir 1973(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2003 ac maent yn dod i rym ar 1 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Symiau taliad colli cartref diwygiedig

2. Pan fydd y dyddiad disodli ar y dydd y daw'r Rheoliadau i rym neu wedi hynny—

(a) yr uchafswm taliad colli cartref rhagnodedig at bwrpas adran 30(1) o'r Ddeddf yw £31,000;

(b) yr isafswm taliad colli cartref rhagnodedig at bwrpas adran 30(1) o'r Ddeddf yw £3,100; ac

(c) swm y taliad colli cartref rhagnodedig at bwrpas adran 30(2) o'r Ddeddf yw £3,100.

(**1**) 1973 p.26; mewnosodwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 p.34, a hynny'n effeithiol o 25 Medi 1991 (*gweler*O.S. 1991/2067, erthygl 3).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) erthygl 2 ac Atodlen 1.